

Creu Cymunedau Cryf

Sylw o rwydwaith Talwrn;

Mae Talwrn yn rhwydwaith o sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru sy'n cydweithredu ar nod cyffredin, sef cefnogi cymunedau i fod yn gryf ac yn llewyrchus. Mae ein haelodau'n cynnwys sefydliadau lleol â ffocws ar gymunedau penodol, yn ogystal â rhai sy'n gweithredu ledled y sir a rhai'n genedlaethol. Mae arbenigedd ein haelodau'n cynnwys datblygu cymunedol, menter gymdeithasol, gwaith ieuenctid, addysg, dysgu a chyflogadwyedd a gofal cymdeithasol.

Trosolwg

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi'r broses o ddatblygu cymunedau cryf yn amserol o ystyried yr heriau cynyddol gymhleth y mae pobl, teuluoedd a chymunedau'n eu hwynebu ar draws Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd tlotach. Mae'r ansicrwydd economaidd sy'n codi o Brexit, effeithiau rhagor o gynydd "diwygio" lles, natur newidiol gwaith, effeithiau newid hinsawdd (a brofir yn anwastad) a newidiadau demograffig a thechnolegol yn creu heriau a chyfleoedd i bobl yng Nghymru a fydd yn cael eu profi mewn gweithleoedd a chymunedau.

Pwysigrwydd Cymunedau Cryf

Mae cymunedau cryf, yn enwedig i bobl sydd ar incwm is, y mae eu rhwydweithiau cymdeithasol yn tueddu i fod yn fwy lleol, yn hanfodol ar gyfer helpu eu preswylwyr i ymdopi â heriau bywyd a ffynnu. Mae cymunedau cryf yn fannau lle mae pobl yn cael mynediad at gyfleoedd, cymorth a gweithgareddau hamdden (sydd eu hunain yn aml yn ffurf hanfodol o gymorth).

Fel arfer, ystyrir mai blociau adeiladu allweddol cymunedau cryf yw:

- Rhwydweithiau cymdeithasol cryf sy'n galluogi pobl i gydweithredu'n lleol (cyfalaf cymdeithasol llorweddol) a dylanwadu y tu hwnt i'w ffiniau (cyfalaf cymdeithasol fertigol)
- Economiâu rhanbarthol ac isranbarthol amrywiol sy'n galluogi pobl i gael mynediad at waith hyd yn oed wrth i sectorau penodol godi a chwympo
- Seilwaith ffisegol lleol cryf – a chynlluniau ar waith i ymdopi ag ergydion (er bod y rhain yn bennaf yn ymwneud ag ergydion amgylcheddol sydd ar ddod ac nid ydynt yn hanfodol yn y rhan o Gymru)

Er y gall camau gweithredu llywodraeth gefnogi neu danseilio cymunedau cryf, ni all Llywodraeth eu creu na'u dinistrio (mewn gwladwriaethau democrataidd): mae elfennau hanfodol mewn cymuned gref yn gynnyrch camau gweithredu gan ddinasyddion neu'r wladwriaeth a dinasyddion yn cydweithio. Mae hyn hyd yn oed yn fwy gwir yn ein hamgylchedd presennol lle ceir cymysgedd o doriadau gwariant a galw cynyddol am wasanaethau aciwt sy'n ymwneud ag iechyd yn arwain at encilio gan y wladwriaeth mewn meysydd eraill. Yn y bôn, mae cymuned gref yn un y mae ei

haelodau'n gallu gwneud pethau drostynt eu hunain – ac yn aml i eraill yn eu cymuned – ac sy'n gallu ymateb i ergydion.

Llywodraeth Cymru a Chymunedau Cryf

Mae syniadau presennol Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth i nifer o flociau adeiladu cymunedau cryf. Yn benodol, mae'r ffocws ar y blynyddoedd cynnar ac ar gyflogaeth yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd pobl, yn enwedig pobl ifanc, yn gallu cael mynediad at gyfleoedd swyddi ac addysg bellach/uwch (sydd y tu allan i gymunedau lleol yn bennaf). Mae hyn yn elfen hanfodol wrth sicrhau y gall unigolion a theuluoedd ymdopi â newidiadau i'r farchnad lafur ehangach, er bod ganddi ei chyfyngiadau fel y byddwn yn trafod isod.

Mae cydnabyddiaeth rannol o leiaf o bwysigrwydd cysylltiadau rhwng cymunedau a chyrrff cyhoeddus yn y syniadau'n ymwneud â grymuso, y bwriedir iddo sicrhau llais cryfach i gymunedau wrth wneud penderfyniadau – yn amlwg yn unol ag egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, mae nifer o fylchau o hyd y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn i ni wneud y gorau o'n cyfleoedd i greu cymunedau cryf. Ni fydd cymunedau wedi'u grymuso yn cael eu datblygu dim ond drwy ofyn i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac awdurdodau lleol cymryd rôl arweinyddiaeth. Mae awdurdodau lleol bob amser wedi cymryd rôl arweinyddiaeth a bydd yn teimlo'n weddol naturiol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gymryd un.

Fodd bynnag, ni fydd hynny yn ddo'i hun yn gwneud llawer i rymuso cymunedau, a bydd angen i gyrrff cyhoeddus weithio gyda chyrrff cymunedol er mwyn i'r syniad hwn gael unrhyw ystyr. Mewn rhai meysydd gwaith, mae cyrrff sector gwirfoddol sy'n cynrychioli "cymunedau buddiant" yn gallu chwarae'r rôl hon ac yn gwneud hyn – er bod hyn yn aml gyda chyfraniad cyfyngedig gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Ond i gymunedau daearyddol, yn aml nid oes neb â'r fath rôl (heblaw am aelodau etholedig lleol). Er mwyn grymuso cymunedau daearyddol, bydd angen sefydliadau sy'n gallu darparu'r llais hwnnw naill ai'n uniongyrchol, drwy aelodau etholedig neu drwy'r ddau'n cydweithio.

A dyna lle mae'r bwlch mwyaf, o bosibl, yn syniadau cychwynnol y Llywodraeth am gymunedau cryf ddod yn glir, sef y gydnabyddiaeth o bwysigrwydd rhwydweithiau a pherthnasoedd lleol (o'r enw "cyfalaf cymdeithasol llorweddol" yn y jargon). Byddai llenwi'r bwlch hwn yn golygu manteision mawr. Mae symud cyfalaf cymdeithasol, mewn geiriau eraill annog pobl leol i wneud pethau gyda'i gilydd, yn gallu dod â manteision cadarn gwirioneddol i gymunedau ac i ddarparwyr gwasanaethau sy'n gweithio gyda hwy. Mae angen i unrhyw strategaeth Llywodraeth ar gymunedau cryf gydnabod yr hyn mae cymunedau eisoes yn ei wneud drostynt eu hunain ac adeiladu arno, mewn lleoliadau cymdeithasol a thrwy ddinasyddion a darparwyr gwasanaethau yn cydweithio.

Economiâu a Chymunedau Cryf

Y ddau floc adeiladu mwyaf o gryfder unigol a theuluol yw iechyd da ac incwm digonol, cynaliadwy. Yn aml ymgymerir â'r ffocws ar gymunedau cryf i wneud iawn am absenoldeb un o'r rheiny, fel arfer incwm, sydd fel arfer â chysylltiadau agos ag iechyd beth bynnag.

Nid yw hyn yn golygu y dylai trafodaeth ynghylch cymunedau cryf dybio a derbyn y bydd incwm isel yn arferol, ond rhaid iddi gydnabod pa mor debygol y bydd hynny. Ar hyn o bryd, mae Cymru yn cymysgu lefelau cyflogaeth sy'n uwch na chyfartaledd y DU â'r lefelau tlodi uchaf ond un yn y DU (o adroddiad diweddaraf Sefydliad Joseph Rowntree ar dlodi ac allgáu cymdeithasol yn y DU). Mae'n amlwg bod hyn yn golygu nad yw llawer o swyddi'n talu digon i ddarparu safon byw gweddus a bod

ffocws cyfyngedig ar gyflogaeth yn cael goblygiadau sylweddol. Ac mae astudiaeth ddiweddar gan NEF, New Start a CLES yn dangos nad yw economeg draddodiadol yn gweithio mewn llawer o rannau o'r DU. Er bod lleiafrif o bobl yn profi mwy o gyfoeth, mae llawer yn ei chael hi'n anodd cael deupen llinyn ynghyd. Nid yw manteision twf economaidd yn cael eu lledaenu'n wastad ledled y wlad, nac mewn lleoedd.

Ond mae'n bosibl nad yw ymatebion i heriau economaidd yn fwyaf effeithiol ar y lefel gymunedol fwyaf lleol: mae mynediad at hyfforddiant lleol yn bwysig ond, os mai cyflogaeth yw'r canlyniad disgwylidig, mae angen iddi fod yn gysylltiedig â strategaethau datblygu economaidd ar lefel ardal, ledled awdurdod lleol ac ar draws rhanbarthau. Ac, er mwyn gwneud i'r strategaethau hyn weithio mewn ardaloedd lleol a chanddynt economïau rhesymegol wannach, bydd angen ffyrdd newydd o feddwl sy'n cadw mwy o'r gwariant cyhoeddus mewn cymunedau; mae syniadau ar economïau sylfaenol ac economeg gylchol yn ymdrechion i wneud hyn a chysylltu'n gryf ag egwyddorion cryfder.

Yn gysylltiedig â hyn y mae'r dystiolaeth gynyddol bod ffocws ar drefniadau caffael lleol – sicrhau bod mwy o waith yn mynd i gontractwyr lleol – yn wirioneddol yn cadw cyfoeth mewn ardaloedd lleol (mae'r gwaith yn Preston a ddogfennwyd gan y Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol yn pwysleisio hyn) yn fwy effeithiol na chymalau recriwtio lleol syml. Mae'r dull gweithredu cyntaf yn fwy tebygol o gadw neu greu swyddi parhaol tra bydd y rheolaeth yn parhau i fod gyda'r bobl y mae ganddynt fuddiant amlwg mewn ffyniant lleol.

Ac ni allwn gyfyngu ein hunain i gymorth cyflogaeth sy'n canolbwyntio ar swyddi lefel mynediad yn unig. Mae angen i waith i ddatblygu sgiliau fod yn fwy uchelgeisiol. Yn ychwanegol at ganolbwyntio ar bobl ifanc heb sgiliau, mae angen cymorth ar gyfer dilyniant sgiliau er mwyn cynorthwyo unigolion i ddatblygu cryfder wrth wynebu ansicrwydd a newid economaidd.

Cyfalaf Cymdeithasol a Chymunedau Cryf

Un o'r elfennau allweddol wrth i gymunedau ddatblygu cryfder yw ansawdd perthnasoedd rhwng unigolion a sefydliadau mewn ardal leol a'r amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol. Mae'r graddau y mae preswylwyr lleol yn cael mynediad at gymorth cymunedol (fel banciau bwyd, gwasanaethau cyfeillio, gofal plant anffurfiol – sy'n hanfodol i strategaethau ymdopi llawer o bobl, yn dibynnu'n llwyr ar lefel y gweithgarwch cymdeithasol yn y gymuned honno (hyd yn oed os yw rhai'n cynnwys rhywfaint o gymorth allanol hefyd). Mae pob math o weithgareddau hamdden a ddarperir yn y gymuned yr un mor bwysig. Mae'r rhain yn gwneud cyfraniadau at lesiant ehangach ac ymdeimlad pobl o hapusrwydd.

Mae'r gweithgareddau hyn yn fwyfwy canolog i agenda iechyd a gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru (meddylwch am ddulliau rhagnodi cymdeithasol, gweithgareddau iechyd y cyhoedd a mentrau gofal cymdeithasol) a hefyd yn darparu gweithgareddau ategol hanfodol i raglenni cymorth rhieni ac i weithgareddau dysgu yn yr ysgol. Ac mae natur y gweithgaredd cymdeithasol hwnnw'n hollbwysig; mae mwy o bobl yn debygol o gymryd rhan os yw'n llawn hwyl, yn hamddenol ac yn anffurfiol. Yn aml mae cymryd rhan yn dod â manteision llesiant sylweddol, ond mewn lleoliadau hamddenol mae'r cyfle i gynnig gwybodaeth neu wasanaethau ehangach yn gallu mynd yn haws mewn llawer o achosion.

Mae'r gweithgareddau hyn yn galluogi cyfranogiad gan groestoriad eang o drigolion unrhyw gymuned benodol, sydd yn aml yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ategol neu sy'n helpu ei gilydd. Yn wir, yn draddodiadol mae gwirfoddoli yn aml wedi'i sbarduno'n gryf gan aelodau hyn o gymunedau (er bod hyn yn newid), yr union grŵp y mae'n ymddangos ei fod yn absennol o

weledigaeth bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer cymunedau cryf. Mae'n debyg bod syniadau'r polisi cychwynnol yn canolbwyntio'n bennaf ar anghenion ac uchelgeisiau pobl iau (sy'n eithaf iach), ond mae'n anochel y bydd cymunedau'n gryfach drwy ddefnyddio adnoddau eu poblogaethau cyfan – ac mae cymuned gref yn fwy gwerthfawr i'w thrigolion os yw'n gynhwysol.

Wrth gwrs, ni all Llywodraeth *greu* gweithgarwch cymdeithasol, ond gall gefnogi ei ddatblygu a'i feithrin pan fydd wedi dechrau – ac mae'n gwbl hanfodol i gael cymunedau cryf ac mae'n beth da drwy ei rinwedd ei hun.

Os ydym am i gymunedau dderbyn mwy o gyfrifoldebau drostynt eu hunain, mae angen cydnabyddiaeth glir o sut mae hynny'n digwydd. Bydd cynnwys pobl leol wrth feddwl am yr hyn sy'n gweithio yn gwneud pa adnodd bynnag sydd gennych yn fwy effeithiol gan ei fod yn gweithio gyda'r graen, nid yn ei erbyn – ond mae rhyw adnodd yn hanfodol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn parhau i fod yn agendâu gwasanaeth cyhoeddus ac mae angen eu cyflwyno fel hynny, ond drwy gynnwys cymunedau'n fwy effeithiol.

Mae hyn yn golygu cymryd camau i feithrin y broses o ddatblygu rhwydweithiau a pherthnasoedd mewn cymunedau sy'n gallu creu rhwydweithiau cymdeithasol a sicrhau bod pobl yn adnabod ei gilydd. Nid moethau yw clybiau, grwpiau, digwyddiadau cymdeithasol a gweithgareddau cymunedol, ond nhw yw'r dulliau hanfodol ar gyfer cysylltu a rhwydweithiau cymdeithasol. Dechreuwch gyda'r rhain a gall y cryfder ddilyn. Ond mae angen adnoddau arnynt, mae angen pobl arnynt i'w harwain (nid â thâl o reidrwydd, ond â chymorth), cyllid i dalu am adeiladau/gostau cyffredinol ac ati. Yn benodol, mae hyn yn golygu cefnogi sefydliadau sy'n gweithredu fel 'hybiau' cymunedol neu sefydliadau 'angori'.

Mae'r rhain yn sefydliadau sy'n deall ac yn gallu gweithredu dulliau datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau er mwyn:

- Darparu lleoliadau agored, hygyrch a chroesawgar i'r gymuned gyfan gwrdd a chymdeithasu
- Ymgorffori lefel uchel o wirfoddoli
- Cynnig lleoliadau i grwpiau gwahanol gwrdd ynddynt
- Mynd ati i hyrwyddo cydweithrediad rhwng mentrau a sefydliadau cymunedol gwahanol drwy amrywiaeth o rwydweithiau anffurfiol a ffurfiol
- Bod yn fodlon gweithredu fel 'brocer' i gefnogi pobl i gael gwybod am wasanaethau cyhoeddus a chael mynediad atynt
- Cefnogi darparwyr gwasanaethau i weithio'n lleol yn eu cymuned (a'u cefnogi i ddeall anghenion penodol yn y gymuned honno)
- Darparu lleoliadau ar gyfer cymorth cymunedol, a ddarperir gan asiantaethau allanol a thrwy gymorth ar y cyd (e.e. grwpiau llesiant, gwasanaethau cyngor, dysgu oedolion, banciau bwyd – caffi cymunedol/bingo/nosweithiau dawnsio/clwb ieuenctid ac ati)
- Ysgogi gweithgareddau cymunedol (e.e. dechrau trwy gynnal digwyddiad, yna cefnogi eraill i'w gynnal)
- Darparu rôl sicrwydd ansawdd o ran y gwasanaethau sy'n dod i mewn.

Bydd y sefydliadau hyn hefyd yn cynnig oriau agor hyblyg ac amgylchedd croesawgar i bobl leol fel eu bod am ddefnyddio'r cyfleusterau. Yn ein profiad ni, mae'n hanfodol bod y defnyddwyr yn teimlo eu bod yn 'berchen' ar y fath leoedd, fel eu bod yn gyfforddus i alw heibio.

Mae sefydliadau sy'n cynnig y swyddogaeth hon eisoes yn bresennol mewn llawer o gymunedau (mae Atodiad A yn cynnwys nifer o enghreifftiau o'r fath sefydliadau a'u gwaith) ond mae rhai mewn sefyllfa fregus yn ariannol ac mae eraill, a ariennir ar gontractau i raddau helaeth, heb y rhyddid

ariannol i chwarae'r rôl ehangach a ddisgrifiwyd uchod. Byddai grant cyllid craidd cymharol fach, ynghlwm wrth y rolau a ddisgrifiwyd uchod, yn galluogi sefydliadau i sicrhau eu bod yn cyfrannu'n gryf at sicrhau bod gweithgareddau a gwasanaethau'n hygyrch yn lleol a hyrwyddo'r cysylltiadau rhwng grwpiau lleol a chyrrff allanol. Bydd llawer hefyd yn manteisio ar y sefydlogrwydd mae cyllid craidd yn ei gynnig er mwyn codi cyllid ychwanegol, a cheir tystiolaeth gref o waith rhwydwaith Talwrn, y Gymdeithas Sefydliadau Elusennol a Fforwm Cyllidwyr Cymru bod llawer o sefydliadau yn y DU sydd am fuddsoddi mwy mewn cyrrff cymunedol yng Nghymru. Mae cael gwarant o swm bach ond sefydlog o gyllid craidd yn rhoi llwyfan hanfodol i ehangu arno.

Cydgynhyrchu Llesiant Cymunedol?

Yn Rhondda Cynon Taf, mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'r trydydd sector er mwyn datblygu dull gweithredu llesiant cymunedol lleol sy'n seiliedig ar 'Fodel Leeds', gan ddefnyddio datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau lle arweinir y rhan fwyaf o weithgareddau gan wirfoddolwyr a'r gymuned. Yn ganolog i'r syniadau ar hyn o bryd yw cymorth a datblygiad tymor hir cyfleusterau cymunedol, sy'n gallu rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad (gan gynnwys cyfleusterau TG) i bawb sy'n byw yn lleol, yn ogystal â ffocws penodol ar flaenoriaethau gwasanaethau cymdeithasol, fel gofali i bobl hŷn, anabledau dysgu ac iechyd meddwl.

Bwriad cyllid craidd i angori sefydliadau yw hyrwyddo rhwydweithiau cymdogaeth, gan ddefnyddio dulliau datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau i ddatblygu gweithlu gwirfoddolwyr bwrdd, a gefnogir gan nifer bach o staff a gyflogir – patrwm sy'n adnabyddadwy mewn llawer o'r hybiau cymunedol llwyddiannus sy'n bodoli ar draws Cymru ar hyn o bryd (gweler yr atodiad i gael rhagor o enghreifftiau).

Yn y dull hwn, mae cydlynwyr cymunedol lleol yn gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus er mwyn datblygu gwasanaethau ymyrryd ac atal yn gynnar mewn cymunedau lleol sy'n agored, yn hygyrch ac wedi'u hyrwyddo'n dda.

Mae'r swyddogaeth hon, a'r cyfraniad enfawr y byddai'n ei wneud i ddatblygu a meithrin cyfalaf cymdeithasol yn lleol, yn ganolog i ddatblygu cymunedau cryf. Mae hefyd yn cyfrannu'n gryf at elfennau cymunedol y cynigion diweddar a nodwyd yn *Ffyniant heb Dlodi* gan Sefydliad Joseph Rowntree.

Wrth gwrs, nid yw sefydliadau sydd â'r gallu i chwarae'r rôl hon yn bodoli ym mhob cymuned y mae eu hangen arni ac, mewn rhai lleoedd, chwaraeir rolau tebyg gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae terfynau o ran yr hyn y gall awdurdodau lleol ei wneud o'i gymharu â chyrrff cymunedol annibynnol (er enghraifft ynghylch hwyluso trefniadau gweithio rhwng grwpiau cymunedol lleol neu helpu pobl i ddylanwadu ar wasanaethau) a gall arferion gweithio mwy biwrocraidd hefyd eu dal yn ôl rhag bod mor agored a hyblyg â llawer o gyfleusterau a gynhelir yn annibynnol.

Bydd cefnogi gallu mewn cymunedau lleol yn gwella gweithgareddau lleol i drigolion, yn cysylltu cymunedau a darparwyr gwasanaethau allanol, ac yn helpu i ddatgloi potensial gwirfoddolwyr. Mae'r mathau o gamau gweithredu y mae sefydliadau 'angori' cryf yn eu cefnogi neu'n eu hwyluso'n cyfrannu'n gryf at helpu'r un bobl y mae rhaglenni Llywodraeth yn eu targedu ar gyfer buddsoddiad cymedrol.

Ac mae llawer o sefydliadau fel hyn hefyd mewn sefyllfa dda i ddarparu gwasanaethau lleol yn effeithiol, mewn ardaloedd sy'n amrywio o ofal cymdeithasol i elfennau o gymorth i deuluoedd a chyflogadwyedd, yn ogystal â chynnal eu darpariaeth gan eraill. Mae hyn yn cynnig y cwmpas i fwy o wasanaethau sensitif lleol gael eu darparu mewn lleoliadau priodol, ond mae'n debygol y bydd angen newid tuag at drefniadau caffael neu gomisiynu sy'n fwy hyblyg, ar raddfa lai na'r rhai a ddefnyddir yn eang ar hyn o bryd.

Efallai nad yw cymunedau Cymru mor glós nac mor weithredol â'r hyn a awgrymir gan ystrydebau hiraethus, ond mae llawer i adeiladu arno o hyd mewn llawer o ardaloedd sy'n cynnig gwerth gwirioneddol i drigolion lleol a gallent gynnig mwy.